Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 5) 2021

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r offeryn statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 04:00 o'r gloch ddydd Mercher, 15 Rhagfyr, cyn y gellir ei osod. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 15 Rhagfyr.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:

- Tynnu 11 gwlad oddi ar y rhestr goch;

- Gwneud mân newidiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr.

Mae'r holl wledydd sydd ar y rhestr goch yn cael eu tynnu mewn ymateb i'r ffaith fod Omicron yn lledaenu mor eang yn y gymuned erbyn hyn, yn y DU ac mewn gwledydd nad ydynt ar y rhestr goch. Ond er nad oes unrhyw wledydd ar y rhestr goch, mae'n cael ei chadw yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn inni allu ymateb yn gyflym i amrywiolion sy'n dod i'r amlwg.

Mae mân newidiadau yn cael eu gwneud i Ran 1 y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn gyson o ran y derminoleg sy'n cael ei defnyddio.

Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod gall y Rheoliadau hyn ddod i rym ar y cyfle cynharaf a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

oherwydd y dystiolaeth newidiol ar y risg mewn perthynas â'r afiechyd hwn ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gam y gellir ei gyfiawnhau yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services